Trydan Gwyrdd Cymru

Gwanwyn 2026

Ynni i ffynnu. Power to prosper.


© Crown copyright (2022) Cymru Wales

# Gwefr – Gwefr Glyn Cothi rhifyn 2

**Yn ystod yr hydref, cynhaliom ymgynghoriad anffurfiol i gasglu barn ar ein cynlluniau cynnar ar gyfer Fferm Wynt arfaethedig Glyn Cothi. Rydym wedi treulio'r misoedd diwethaf yn adolygu popeth a ddywedodd pobl wrthym yn ofalus. Mae'r mewnbwn hwn eisoes yn helpu i lunio ein camau nesaf, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i gymryd rhan.**

Yn y cylchlythyr hwn, mae **crynodeb o'r hyn a ddywedodd pobl** a sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd.

Rydym yn parhau â'r **arolygon a'r asesiadau** ar y safle a chewch y camau nesaf ac **amserlen** yn y cylchlythyr hwn.

Yn ogystal â Fferm Wynt Glyn Cothi, rydym yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer cynigion **Fferm Wynt Clocaenog Dau**, sydd wedi'i lleoli yng Nghoedwig Clocaenog yn Sir Ddinbych a Chonwy, a **Fferm Wynt Carreg Wen** yng Nghoedwig Sant Gwynno yn Rhondda Cynon Taf. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ar y ddau brosiect yn yr hydref ac rydym bellach yn cynnal arolygon ac asesiadau ar y ddau safle.

Ar ddiwedd y llynedd, cyhoeddwyd ein cynlluniau i ddatblygu **Fferm Solar** arfaethedig **Larnog** ym Mro Morgannwg. Dyma ein pedwerydd prosiect yn ein portffolio a'n fferm solar gyntaf.

Mae ein holl brosiectau ynni adnewyddadwy wedi'u lleoli'n bennaf ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a'u nod yw **sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'r adnoddau hyn i bobl Cymru.**

Gyda'i gilydd, gallai'r prosiectau hyn gynhyrchu hyd at **437 MW o drydan gwyrdd glân**, sy'n cyfateb i anghenion trydan dros 370,000 o gartrefi - sef dros chwarter o gartrefi Cymru[1] - a chyfrannu at **fuddion economaidd a chymdeithasol i Gymru.** Rydym ar y ffordd i gyflawni uchelgais Trydan o ddatblygu 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd erbyn 2040.

**Rydym yn awyddus i barhau â'r sgwrs. Os ydych chi'n rhan o glwb cymunedol sefydledig, hoffem gyfarfod â chi i drafod ein cynlluniau, felly mae croeso i chi gysylltu â ni.**

[1] Llywodraeth Cymru. Tai yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) . https://www.llyw.cymru/tai-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html

Mae **Trydan Gwyrdd Cymru** yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, gyda'r genhadaeth i ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a chynnig buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

www.trydanglyncothi.cymru | croeso@trydanglyncothi.wales | 01267 610970

# Glyn Cothi – cipolwg



Wedi'i lleoli o fewn ardal a nodwyd fel un addas ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy o bwys cenedlaethol, o dan Dyfodol Cymru: y cynllun cenedlaethol 2040[2]

Hyd at 27 o dyrbinau gwynt modern, hynod effeithlon

Digon o ynni i bweru 144,000 o gartrefi cyffredin yng Nghymru[3]

Yn bennaf o fewn Coedwig Brechfa sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru

Cyllid Budd Cymunedol Blynyddol am oes weithredol o 35 mlynedd

Yn cynhyrchu hyd at 162 MW o drydan glân

Buddiannau economaidd a chymdeithasol yn cael eu cadw yng Nghymru, i Gymru

[2] https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

[3] Annual average electricity consumption = 162 MW (installed capacity) x 0.3082 (all wind load factor) x 8760 hours / 3.032 MWh. Source: RenewableUK. UK Wind Energy Database https://www.renewableuk.com/energypulse/ukwed/ Mean domestic electricity consumption by country/region. Source: DESNZ Subnational Electricity and Gas Consumption Statistics Regional and Local Authority, Great Britain, 2022 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65b12dfff2718c000dfb1c9b/subnational-electricity-and-gas-consumption-summary-report-2022.pdf

## Adroddiad cwmpasu wedi'i gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

### Ym mis Rhagfyr 2025, cyflwynwyd yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer Fferm Wynt Glyn Cothi i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

Mae hon yn garreg filltir allweddol i'r prosiect. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r hyn rydym wedi'i nodi trwy ein hastudiaethau dichonoldeb fel yr ystyriaethau amgylcheddol allweddol. Mae'n gais ffurfiol i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru iddynt roi Cyfarwyddyd Cwmpasu i ni sy'n dweud wrthym faint o fanylder sydd angen i ni ei gynnwys yn ein **Datganiad Amgylcheddol**.

Gallwch ddod o hyd i'r Adroddiad Cwmpasu ar borth gwaith achos Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru **https://planningcasework.service.gov.wales** drwy chwilio am "SIP CAS-04623-L7W9D0 – Glyn Cothi Wind Farm".

**Daeth Deddf Seilwaith (Cymru) 2024** i rym ym mis Rhagfyr 2025, gan ddisodli'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. O dan y Ddeddf newydd, diffinnir Glyn Cothi fel Prosiect Seilwaith Sylweddol (PSP) a byddwn yn gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Seilwaith. Nod y Ddeddf newydd yw gwneud y broses gynllunio yn fwy effeithlon, yn ogystal â rhoi mwy o gyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol datblygiad y prosiect.

### Tir comin

Rydym yn parhau i siarad â deiliaid hawliau ar y tiroedd comin. Rydym wedi cael copïau o'r cofrestri tiroedd comin sydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'n helpu i nodi pwy y mae angen i ni siarad â nhw, fodd bynnag nid yw cofrestri tiroedd comin bob amser yn gyfredol.

Os nad ydych wedi cael cyfle i hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin am brynu tir gyda hawliau neu hawliau wedi'u dosrannu ac yr hoffech gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Fferm Wynt Glyn Cothi, cysylltwch â ni ar **croeso@glyncothi.wales** neu ffoniwch **01267 610970**.

# Dywedoch chi… Byddwn ni'n…

**Ers i'r prosiect gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025, mae'r tîm wedi cael llawer o sgyrsiau defnyddiol gyda phobl leol a phobl eraill sy'n cynrychioli sefydliadau lleol a chenedlaethol perthnasol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol, mynychodd dros 200 o bobl y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn Llanybydder, Abergorlech a Brechfa.**

Ymgynghoriad anffurfiol oedd hwn ac nid yw'n ofyniad yn ôl y system gynllunio. Yn Trydan, ein blaenoriaeth yw rhannu ein cynlluniau cyn eu bod yn derfynol, cynnal sgyrsiau cynnar a gwrando ar adborth sy'n ein helpu i wella sut mae ein cynlluniau'n esblygu. Wrth i ni wneud hyn, rydym hefyd yn asesu ystyriaethau technegol, amgylcheddol, cymdeithasol a chyfreithiol. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau am o leiaf y 12 mis nesaf, gan fod casglu data digonol a chynrychioliadol yn bwysig. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu nad yw tîm y prosiect yn gallu rhoi atebion pendant i rai cwestiynau rydych chi wedi'u gofyn. Maen nhw'n gwestiynau da – rydym ni'n eu gofyn hefyd! Rydym yn deall y gall hyn fod yn rhwystredig ac adlewyrchwyd hyn yn rhywfaint o'r adborth a gawsom. Fodd bynnag, casglu adborth lleol ochr yn ochr â mathau eraill o ddata yw'r ffordd orau o sicrhau bod y prosiect yn elwa o wybodaeth leol trigolion, busnesau a sefydliadau, ac rydym yn adlewyrchu ystyriaethau cymunedol yn ein rhaglen o waith arolwg.

Cawsom adborth cadarnhaol gan bobl sy'n cefnogi'r angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac sy'n awyddus i weld Trydan, y datblygwr Cymreig sy'n eiddo cyhoeddus, yn datblygu ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy i sicrhau buddion i Gymru.

Disgrifiodd rhywfaint o'r adborth bryderon ynghylch agweddau ar ein cynlluniau. Mae'r meysydd allweddol a godwyd yn yr adborth, a'n hymateb i sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, wedi'u manylu yma.

### Dywedoch chi… *"Rwy'n poeni y bydd yn difetha harddwch naturiol yr ardal"*

Dywedodd rhai ohonoch wrthym eich bod yn poeni bod gormod o ddatblygiad yn yr ardal eisoes ac y gallai effaith weledol Fferm Wynt Glyn Cothi effeithio ymhellach ar y dirwedd.

### Byddwn ni'n…

- Cynnal **Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol** a fydd yn nodi effeithiau tirwedd a gweledol posibl, gan gynnwys ystyried effaith gronnus datblygiadau cymeradwy ac arfaethedig yn yr ardal, ac adolygu uchder y tyrbinau arfaethedig.
- Cynnal **Asesiad Mwynder Gweledol Preswyl** ar gyfer eiddo cyfagos i benderfynu a ystyrir bod effeithiau gweledol ar yr eiddo yn torri'r 'trothwy mwynder gweledol preswyl'.
- Defnyddio'r asesiadau a enwir uchod i **ddylunio** fferm wynt sydd wedi'i chydbwyso'n dda.
- Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol yn asesu effeithiau posibl **goleuadau awyrennau**. Ni fydd angen goleuo pob tyrbin gwynt, dim ond digon i sicrhau cydymffurfiaeth diogelwch â'r Awdurdod Hedfan Sifil.
- Byddwn yn diweddaru'r model **model digidol 3D**, rhyngweithiol, ac yn datblygu adnoddau delweddu eraill sy'n helpu i ddangos y cynllun yn y dirwedd leol. Gwnaeth llawer o bobl sylwadau ar ba mor ddefnyddiol oedd yr offeryn 3D a ddefnyddiwyd gennym yn y digwyddiadau ymgynghori, a byddwn yn parhau i ddefnyddio hwn ac offer eraill i rannu'r cynlluniau gyda chi drwy gydol y broses ddatblygu.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Arolygydd Cynllunio ystyried yr effaith **gronnus**. Mae hyn yn golygu nad yw cynnig Glyn Cothi yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun ond yng nghyd-destun ehangach seilwaith arall sydd eisoes yn y dirwedd neu sydd **wedi'i gynnig**.



## Dywedoch chi... *"Rwy'n pryderu am yr effaith ar fywyd gwyllt wildlife"*

Gofynnodd rhai ohonoch a fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fywyd gwyllt a chynefinoedd, gan gynnwys mawndir, coedwig hynafol Brechfa a difrod amgylcheddol ehangach.

### Byddwn ni'n...

- Cynnal **Asesiad llawn o'r Effaith Amgylcheddol** i asesu effeithiau posibl ar ecoleg ac adaryddiaeth. Cyflwynir y wybodaeth hon mewn Datganiad Amgylcheddol drafft yn ystod yr Ymgynghoriad Cyn-ymgeisio.
- **Osgoi neu leihau effeithiau** ar fioamrywiaeth yn ystod pob cam.
- Cynnal arolygon cynefinoedd, arolygon rhywogaethau gwarchodedig, arolygon adar gaeafu a bridio, ac arolygon ystlumod. Gan ddefnyddio'r data hwn, byddwn yn adolygu dyluniad y safle i osgoi effeithiau ar fywyd gwyllt.
- Cyflwyno **Budd Net i Fioamrywiaeth**, gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu **Cynllun Rheoli Cynefinoedd Amlinellol** sy'n gwella bywyd gwyllt a chynefinoedd ar y safle ac yn sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Gweithio gydag arbenigwyr mewn coedyddiaeth i ddylunio cynllun sydd â'r effaith leiaf bosibl ar y rhannau hynny o'r goedwig a ddynodwyd yn **goetir hynafol**.
- Cynnal chwiliadau **mawn** ar y safle. Mae hyn wedi dechrau ac mae'n dangos bod mawn yn absennol ar y cyfan ar draws y safle. Mae lleoliadau cychwynnol y tyrbinau wedi'u lleoli i osgoi ardaloedd o fawn. Cynhelir chwiliadau mawn mwy manwl eleni i fireinio dyluniad y datblygiad arfaethedig.
- Datblygu **Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu** sy'n nodi'r mesurau amgylcheddol i'w defnyddio yn ystod y cam adeiladu. Bydd **Asesiad Canlyniadau Llifogydd** yn asesu'r risg bosibl o lifogydd ac yn darparu mesurau lliniaru addas lle bo angen.

## Dywedoch chi... *"Rwy'n pryderu y bydd sŵn ac is-sain yn effeithio ar iechyd trigolion"*

Cododd rhai pobl bryderon y gallai gweithrediad y datblygiad arfaethedig effeithio'n negyddol ar iechyd a lles trigolion sy'n byw gerllaw'r safle, sef cwsg, iechyd meddwl a lles, straen a phryder.

### Byddwn ni'n...

- Cynnal asesiad o'r **sŵn gweithredol** o'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn unol â methodoleg a chanllawiau f ETSU-R-97[4] a Chanllaw Arfer Da yr Institute of Acoustics (IOA).[5]
- Monitro'r sŵn sylfaenol mewn lleoliadau perthnasol o amgylch perimedr y goedwig. Bydd y gwaith arolygu hwn yn casglu data dros yr wythnosau nesaf a fydd yn ein helpu i sefydlu lefelau sŵn cyfredol o dan wahanol dywydd ac amodau lleol. Yna gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon, ynghyd â chanllawiau ETSU-R-97, i sefydlu'r terfynau sŵn sy'n berthnasol i weithrediad cronnus yr holl dyrbinau gwynt (arfaethedig, presennol a chynlluniedig) yn yr ardal gyfagos.
- Ystyried **mesurau lliniaru** fel rhan o'r asesiad sŵn gyda'r nod o atal a lleihau effeithiau andwyol sylweddol. Gallai mesurau gynnwys:
  - Dewis tyrbinau gwynt sy'n cynhyrchu sŵn isel.
  - Defnyddio dulliau gweithredu sŵn is ar gyfer y tyrbinau gwynt arfaethedig.
  - Lleoli a chyfeiriadedd i wneud y mwyaf o bellter ac effeithiau sgrinio.
- Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan y cyngor proffesiynol diweddaraf, fel yr IOA, ynghylch asesu is-sain o dyrbinau gwynt.

[4] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a798b42ed915d07d35b655a/ETSU_Full_copy__Searchable_.pdf

[5] https://www.ioa.org.uk/sites/default/files/IOA%20Good%20Practice%20Guide%20on%20Wind%20Turbine%20Noise%20-%20May%202013.pdf

# Ymweliad ag Ysgol Llanybydder

**Cafodd mwy na 50 o ddisgyblion o Ysgol Llanybydder gipolwg ar fferm wynt arfaethedig Glyn Cothi ym mis Tachwedd.**

Yn ystod ymweliad Trydan, cymerodd y plant ran mewn cyfres o weithgareddau hwyliog a rhyngweithiol a gynlluniwyd i ennyn chwilfrydedd am ynni adnewyddadwy.

O greu tyrbinau gwynt o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu i gystadlu mewn cwis bywiog a brofodd eu gwybodaeth, cofleidiodd y plant y sesiynau gyda brwdfrydedd.

Buon nhw hefyd yn archwilio model rhithwir o'r fferm wynt arfaethedig, oedd yn eu galluogi i weld sut olwg fyddai ar Glyn Cothi.

I ddathlu eu hymdrechion, derbyniodd pob disgybl sticer 'Arwr Gwyrdd', gyda'r enillwyr yn derbyn rhosedau. Rhoddodd Trydan docynnau llyfrau i'r ysgol i annog dysgu a darllen pellach.




Creu tyrbinau



Disgyblion o Ysgol Llanybydder

# Cynhadledd Economi Werdd 4theRegion

**Ym mis Tachwedd, mynychodd Trydan Gynhadledd ac Arddangosfa Economi Werdd 4theRegion a gynhaliwyd yn Arena Abertawe.**

Roedd hwn yn gyfle i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'n cynlluniau ar gyfer Fferm Wynt Glyn Cothi gyda phobl ledled Sir Gaerfyrddin a'r ardal ehangach, ac i drafod y sgiliau a'r cyfleoedd am swyddi y mae cynllun o'r fath yn eu cynnig yn ystod y datblygiad, yr adeiladu a'r gweithrediad.

Roedd gennym stondin yn arddangos rhai o'r byrddau gwybodaeth o'r digwyddiadau ymgynghori, yn ogystal â'r model digidol 3D o'r datblygiad arfaethedig a oedd ar gael yn y digwyddiadau ymgynghori. Pleser oedd cael ein gwahodd i gyfrannu at drafodaeth banel ar ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned a chyflwyno cyflwyniad 'Spotlight' am y datblygiad arfaethedig yng Nglyn Cothi.




Cynhadledd Economi Werdd 4theRegion

# Buddion Cymunedol

**Bydd Trydan yn dechrau archwilio opsiynau ar gyfer sefydlu sut y gall cyllid sy'n ymateb yn lleol o brosiect Glyn Cothi fod o fudd gorau i gymunedau lleol, a dod â buddion hirdymor i'r ardal gyfagos. Rydym yn ystyried sut y gallai cyllid ategu ffrydiau cyllido lleol presennol, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, a chefnogi mentrau sydd bwysicaf i gymunedau.**

Mae llawer o arbenigedd lleol eisoes ar gyllid ffermydd gwynt, diolch i gronfeydd Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa a Fferm Wynt Alltwalis sydd wedi bod o fudd i lawer o grwpiau a mentrau lleol ers rhai blynyddoedd. Ceir hefyd enghreifftiau o arfer da i ddysgu oddi wrth fannau eraill yng Nghymru. Rydym wedi dechrau cyfarfod â sefydliadau trydydd sector i ddeall blaenoriaethau ar lawr gwlad o'u safbwynt nhw. Byddwn yn cyflwyno rhai o'r canfyddiadau pan fyddwn yn dechrau siarad yn fanylach am fuddion lleol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o uchelgais ehangach Trydan i gynnig buddion lleol ystyrlon, gan gynnwys gwella natur, gwell mynediad i'r goedwig, a chyfleoedd i gyflenwyr lleol trwy gaffael sector cyhoeddus. Mae hyn i gyd wrth sicrhau bod unrhyw elw a gynhyrchir yn cael ei ddychwelyd i Gymru trwy Lywodraeth Cymru fel yrunig gyfranddaliwr.



## Amserlen

### Hydref – gaeaf 2025

Ymgynghoriad anffurfiol ar gynlluniau cynnar.

Cyflwyno'r Adroddiad Cwmpasu i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

### Rydym ni yma Dechrau 2026

Mae casglu'r data angenrheidiol i lywio ein cynlluniau yn gofyn am amrywiaeth o arbenigwyr technegol. Rydym wedi ymgymryd â phrosesau caffael cyhoeddus i benodi sawl cwmni o Gymru a'r DU.

Arolygon yn dechrau: Tirwedd a gweledol, sŵn, hydroleg, mawn, coedwigaeth.

### Gwanwyn – haf 2026

Arolygon ecoleg gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig fel ystlumod, moch daear a llygod y dŵr.

Defnyddir yr holl wybodaeth sydd ar gael i fireinio'r dyluniad.

Ymgysylltu â'r gymuned. Peidiwch ag anghofio, os ydych chi eisiau i ni siarad â'ch grŵp, gwahoddwch ni i un o'ch cyfarfodydd rheolaidd.

### Diwedd 2026

Arolygon adareg ac ecoleg parhaus.

Paratoi'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Datganiad Amgylcheddol drafft.

### Dechrau 2027

Ymgynghoriad cyn-ymgeisio. Rydym yn cyhoeddi'r Datganiad Amgylcheddol drafft ac yn gwahodd adborth.

### 2027

Cyflwyno'r cais cynllunio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

### 2027-28

Archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol.

### 2028

Penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

### Os caiff ganiatâd - 2029

Dylunio a chaffael manwl a sicrhau bod y dyluniadau'n cydymffurfio â'r holl amodau cynllunio.

### 2030 – 2032

Gwaith adeiladu.

### Early 2030s*

Cynhyrchu pŵer.

*Union flwyddyn y cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol yn amodol ar Ddiwygio Cysylltiadau.

www.trydangwyrddcymru.cymru
croeso@trydangwyrddcymru.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**